Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan yr Afon
# Pontygof
# Glyn Ebwy
# Blaenau Gwent
# NP23 5AZ

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 15/04/2014**

## Cyd-destun

Uned cyfeirio disgyblion (UCD) a gynhelir gan awdurdod lleol Blaenau Gwent yw Canolfan yr Afon. Mae'n darparu addysg ar gyfer hyd at 38 o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a 4, sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Yn ychwanegol, mae lleoedd ar gael ym mhob cyfnod allweddol i ddisgyblion y mae angen gwersi unigol neu wersi grŵp arnynt. Mae staff o Ganolfan yr Afon yn cefnogi'r lleoliadau hyn.

Adeg yr arolygiad, roedd 31 o ddisgyblion yn mynychu'r ganolfan. Roedd 14 o ddisgyblion eraill yn cael gwersi cymunedol neu wersi gartref. Mae llawer o'r disgyblion hyn wedi'u cofrestru mewn ysgolion prif ffrwd lleol hefyd.

Mae gan bob disgybl anghenion addysgol arbennig ac mae gan naw disgybl ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae chwech o ferched yn yr UCD ar hyn o bryd. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith. Mae gan ryw hanner o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Ychydig iawn o'r disgyblion sy'n cael gofal gan yr awdurdod lleol.

Mae'r ddarpariaeth yng nghyfnod allweddol 4 yn cynnig cymwysterau TGAU, lefel Mynediad a chymwysterau galwedigaethol. Pan fo'n briodol, mae'r UCD yn trefnu darpariaeth i ddisgyblion hŷn fynychu lleoliadau coleg.

Arolygwyd yr UCD ddiwethaf ym Medi 2009. Mae'r awdurdod lleol wedi ad-drefnu ei ddarpariaeth UCD yn ddiweddar, trwy ddod â nifer o ddarpariaethau lloeren at ei gilydd. Mae'r strwythur staffio ar gyfer Canolfan yr Afon yn newydd iawn a dim ond yn Ionawr 2014 y cafodd ei gwblhau. Dechreuodd yr athro â gofal ar ei swydd ym Medi 2013.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yn yr UCD gyda chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau grwpiau dros gyfnod oherwydd natur ac amrywiaeth anghenion dysgu disgyblion.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr UCD** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r UCD** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae nodweddion da yng ngwaith yr UCD yn cynnwys:

- gostyngiad yn lefel y gwaharddiadau;
- y perthnasoedd gofalgar y mae cynorthwywyr addysgu yn eu sefydlu gyda disgyblion;
- y cynnydd diweddar yng nghyfleoedd y cwricwlwm galwedigaethol ar gyfer disgyblion hŷn; a'r
- cynnydd priodol y mae'r UCD yn ei wneud wrth roi'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol ar waith.

Fodd bynnag, mae perfformiad presennol yn anfoddhaol oherwydd:

- nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd digonol yn eu medrau llythrennedd a rhifedd;
- nid yw'r UCD yn cyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys;
- ni chaiff y cynllunio ei gydlynu ac nid yw'n cwmpasu medrau yn ddigonol;
- mae'r UCD yn anghyson o ran nodi anghenion dysgu disgyblion;
- nid yw'r UCD yn olrhain cynnydd disgyblion;
- mae presenoldeb yn annerbyniol o isel;
- mae ymddygiad lleiafrif o ddisgyblion yn annerbyniol;
- nid yw addysgu yn ymgysylltu'n llawn â dysgwyr; ac
- nid oes cyngor ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn yr UCD yn anfoddhaol oherwydd:

- ni chaiff y weledigaeth ar gyfer yr UCD ei deall yn llawn gan staff;
- nid yw staff wedi croesawu newidiadau diweddar yn llawn;
- megis dechrau y mae'r broses hunanarfarnu;
- ychydig iawn o gynnydd a wnaed wrth roi argymhellion arolygiad 2009 ar waith;
- mae'r pwyllgor rheoli wedi bod yn amrywiol o ran ei aelodaeth, ac o ganlyniad, nid yw wedi darparu digon o gymorth a her; ac
- mae'r awdurdod lleol wedi bod yn anghyson o ran y cymorth a ddarperir.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn yr arolygiad ynghylch diogelu

A2 Sefydlu system olrhain effeithiol a sicrhau bod pob disgybl yn gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd

A3 Gwella presenoldeb pob disgybl

A4 Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu

A5 Gwella ansawdd y cynllunio a sicrhau bod y cwricwlwm yn eang a chytbwys

A6 Gwella ymddygiad disgyblion a sicrhau bod pob aelod o staff yn rheoli ymddygiad yn gyson

A7 Sicrhau bod yr holl bolisïau statudol ac anstatudol perthnasol yn eu lle

A8 Gwella'r broses hunanarfarnu a'i hansawdd

A9 Sicrhau bod yr UCD, y pwyllgor rheoli a'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i godi safonau

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen mesurau arbennig mewn perthynas â Chanolfan yr Afon. Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr UCD bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Mae gan ddisgyblion sy'n mynychu Canolfan yr Afon ystod o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt hanes o bresenoldeb gwael a gwaharddiadau yn eu hysgolion prif ffrwd.

Yn 2013, enillodd 28% o ddisgyblion Blwyddyn 11 sy'n mynychu'r UCD un cymhwyster TGAU neu fwy naill ai mewn Saesneg neu fathemateg. Mae disgyblion sy'n cael gwersi gartref yn gwneud cynnydd priodol. Enillodd y mwyafrif ohonynt gymhwyster TGAU. Y radd uchaf a enillwyd gan bob disgybl oedd F mewn Saesneg ac E mewn mathemateg. Mewn blynyddoedd blaenorol, lle bo'n briodol, mae disgyblion wedi cael eu cofrestru ar gyfer ystod gyfyngedig o achredu allanol.

Nid oes gan yr UCD ddealltwriaeth ddigon da o'r cynnydd a wna disgyblion. Nid yw'n nodi cyrhaeddiad blaenorol disgyblion, ac mae'r wybodaeth sy'n dod i law o ysgolion prif ffrwd yn anghyson. Nid oes dull cyson o sefydlu data gwaelodlin ar ddisgyblion.

Ychydig iawn o dystiolaeth o waith a wnaed gan bron pob disgybl cyn Medi 2013 sydd gan yr UCD. Yn ychwanegol, nid yw wedi olrhain y cynnydd y gallai disgyblion fod yn ei wneud. Mae hyn yn ddiffyg sylweddol o ystyried bod 26% o ddisgyblion wedi mynychu'r UCD am ddwy flynedd neu fwy. O ganlyniad, ni all arweinwyr yn yr UCD a'r awdurdod lleol ddangos pa gynnydd y mae disgyblion wedi'i wneud yn ystod eu cyfnod yn yr UCD.

Mae'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn gwersi yn rhy amrywiol. Yn y gwersi prin lle mae safonau'n dda, mae llawer o ddisgyblion yn ymdawelu'n gyflym ac yn gweithio'n ddiwyd. Dangosant ddiddordeb, ac yn holi ac yn ateb cwestiynau'n briodol. Gall rhai ohonynt ddangos dealltwriaeth dda o'r maes testun a galw dysgu blaenorol i gof. Er enghraifft, mewn Saesneg, mae gan lawer o ddisgyblion lawysgrifen ddestlus ac maent yn trefnu eu gwaith yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn ymarfer eu medrau darllen ac maent yn hyderus wrth ddarllen ar goedd. Mae rhai disgyblion yn cwblhau darnau o ysgrifennu estynedig. Maent yn strwythuro brawddegau'n dda ac yn defnyddio atalnodi'n gywir. Gwnânt ddefnydd da o gridiau cynllunio i gefnogi eu hysgrifennu.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl a chynllunio wrth ddyfeisio briffiau prosiect. Ceir tystiolaeth dda o ddilyniant mewn dylunio a thechnoleg a chelf.

Pan mae safonau'n ddigonol neu'n llai, mae disgyblion yn ymddieithrio'n gyflym. Mae lleiafrif ohonynt yn darparu atebion cyfyngedig yn eu gwaith llafar ac ysgrifenedig. Nid yw disgyblion yn ymwybodol o ddiben y wers ac maent yn galw dysgu blaenorol i gof yn wael. Mae lleiafrif ohonynt yn fodlon rhannu eu syniadau gyda chyfoedion. Mae rhai ohonynt yn cynllunio'u gwaith. Ychydig iawn ohonynt sy'n myfyrio ar eu dysgu.

Nid yw disgyblion yn datblygu medrau digonol mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ymarfer y medrau hyn mewn gwersi. Mae'r amserlen wedi'i chynllunio fel bod pob disgybl yn astudio Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd mewn Cymraeg.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cael eu hailintegreiddio i ysgol prif ffrwd.

Bu cynnydd yn nifer y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n mynd ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Fodd bynnag, yn 2013, nid aeth traean o ddisgyblion ymlaen i unrhyw fath o addysg, hyfforddiant na chyflogaeth.

**Lles: Anfoddhaol**

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr UCD. Prin yw'r achosion o fwlio ac mae disgyblion yn gwybod at bwy i droi os byddant yn pryderu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn teimlo bod yr UCD yn eu haddysgu sut i fod yn iach.

Am y tair blynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb cyffredinol wedi gwella. Fodd bynnag, mae'r gyfradd presenoldeb, sef 65%, yn anfoddhaol. Nid yw'r UCD yn casglu data presenoldeb yn rheolaidd cyn lleoliad. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn gallu mesur gwelliant disgyblion unigol yn gyffredinol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadael safle'r ysgol yn rheolaidd yn ystod amser cinio ac fe gaiff hyn effaith negyddol ar eu prydlondeb wrth fynychu gwersi yn y prynhawn. Yn ychwanegol, nid yw rhai disgyblion yn mynd yn ôl i'r UCD ar ôl cinio.

Mae ymddygiad lleiafrif o ddisgyblion yn aflonyddgar. Mae disgyblion yn cam-drin athrawon yn eiriol ac maent yn rhegi arnynt yn rheolaidd. Mae disgyblion yn torri ysgrifbinnau ac yn taflu gwrthrychau ar draws yr ystafell ddosbarth. Mewn rhai gwersi, mae disgyblion o ddosbarthiadau eraill sy'n dod i'r wers heb ganiatâd neu reswm dilys dros wneud hynny yn tarfu ar yr addysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud eu gorau i anwybyddu'r ymyriadau hyn. Mewn rhai achosion, ni chaiff ymddygiad gwael ei herio gan staff.

Er 2011-2012, mae'r UCD wedi lleihau lefel y gwaharddiadau yn sylweddol. Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol am y ddwy flynedd diwethaf.

Mae disgyblion wedi cymryd rhan mewn trafodaethau am y system pwyntiau ymddygiad newydd yn ddiweddar. Fodd bynnag, nid oes cyngor ysgol ac nid yw'r ysgol yn gofyn yn ffurfiol am safbwyntiau disgyblion ar fywyd yr UCD. O ganlyniad, nid oes gan ddisgyblion ddealltwriaeth ddigon da o wneud penderfyniadau a'u rôl yn hyn.

Mewn llawer o achosion, mae disgyblion hŷn yn datblygu ac yn ennill y medrau sydd eu hangen i symud ymlaen yn llwyddiannus i'w cam dysgu nesaf.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Anfoddhaol

Mae'r UCD yn darparu'r 25 awr a argymhellir o addysg amser llawn. Fodd bynnag, nid yw'r cwricwlwm yn ddigon eang a chytbwys i fodloni anghenion pob disgybl. Er enghraifft, yng nghyfnod allweddol 3, nid oes darpariaeth ar gyfer cerddoriaeth ac ni chyflwynir pob agwedd ar addysg bersonol a chymdeithasol. Dim ond yn ddiweddar y mae addysg gorfforol ac addysg grefyddol wedi cael eu hychwanegu at yr amserlen ac ni chânt eu haddysgu'n rheolaidd. Gall disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ddilyn ystod o gymwysterau priodol, gan gynnwys lefel mynediad a TGAU. Mae achredu pellach mewn medrau hanfodol ar gael yng nghyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei ddatblygu y mae hyn.

Mae cynlluniau gwaith yn eu lle ar gyfer rhai pynciau. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn nodi sut bydd medrau'n cael eu datblygu.

Mae tua hanner y disgyblion ym Mlwyddyn 11 wedi manteisio ar brofiad gwaith.

Mae ystod eang a phriodol o raglenni addysg yn gysylltiedig â gwaith. Fodd bynnag, heblaw i'r prosiect Auto-Motive, nid yw'r rhaglenni'n galluogi disgyblion i ennill cymwysterau priodol.

Nid yw'r UCD yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddatblygu medrau. Nid oes dull na pholisi cyffredin o ddatblygu arfer dda yn y maes hwn. Nid oes cyfleoedd digonol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd, cyfathrebu, TGCh a meddwl ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol. Cynhaliwyd archwiliad ysgol gyfan ac mae cynllun gweithredu ar waith. Mae'n rhy gynnar i farnu'r effaith ar safonau disgyblion.

Mae cyfleoedd cynlluniedig cyfyngedig ar gyfer gweithgareddau hamdden neu ryngweithio cymdeithasol y tu allan i wersi i ddisgyblion. Mae hyn yn cyfrannu at densiwn rhwng disgyblion ac awyrgylch ymfflamychol amser egwyl.

Nid oes ymyriadau penodol sy'n targedu datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'r holl ddisgyblion wedi cael eu hasesu yn y defnydd a wnânt o iaith yn gymdeithasol. Roedd disgyblion yn gwneud cynnydd. Fodd bynnag, mae'r ymyrraeth werthfawr hon wedi cael ei thynnu'n ôl.

Caiff disgyblion gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwerthfawr, gan gynnwys Cynllun Gwobrwyo Dug Caeredin. Mae cyfleoedd ychwanegol fel rhedeg yn rhydd, dringo creigiau a chanŵio ar gael i ddisgyblion fel rhan o'r cynllun gwobrwyo ymddygiad.

Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg wedi'i datblygu'n ddigonol ac nid oes llawer o dystiolaeth fod diwylliant Cymru yn cael ei ddathlu yn yr UCD na'i gynllunio ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, cafwyd dau ddigwyddiad yn ddiweddar lle chwaraeodd disgyblion gemau Cymraeg a chawsant gyfle i ganu yn Gymraeg. Mae tri chynorthwyydd addysgu wedi cael hyfforddiant Cymraeg yn ddiweddar iawn.

Mae gwersi “eco” wedi cael eu hychwanegu at amserlen cyfnod allweddol 3 yn ddiweddar. Fodd bynnag, ni chaiff addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDFE) ei chydlynu na’i chynllunio ar draws y cwricwlwm.

**Addysgu: Anfoddhaol**

Yn y rhan fwyaf o wersi a arsylwyd, bernir bod yr addysgu yn anfoddhaol neu’n ddigonol. Yn y gwersi hyn, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o ddisgyblion i gyflawni eu gorau. Mae’r defnydd rheolaidd o daflenni gwaith a’r diffyg amrywiaeth o weithgareddau mewn gwersi yn atal disgyblion rhag datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws meysydd y cwricwlwm. Caiff gwersi eu cynllunio’n wael ac nid yw deunyddiau dysgu yn gweddu i alluoedd disgyblion bob amser.

Yn y nifer fach o wersi da, mae disgwyliadau’n uchel. Mae gwaith yn ddifyr ac yn briodol i anghenion a galluoedd disgyblion. Mae rhediad priodol i wersi ac mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda’i gilydd yn dda i gefnogi disgyblion i ddysgu’n effeithiol.

Ar draws yr UCD, mae gwybodaeth bynciol athrawon yn amrywiol, ac mewn rhai achosion, ni all athrawon esbonio syniadau a datrys problemau yn briodol. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon bob amser yn gwirio dealltwriaeth disgyblion cyn symud ymlaen i gam nesaf y wers.

Mewn llawer o achosion, nid yw’r marcio yn gyflawn ac nid yw sylwadau yn dangos yn glir i ddisgyblion beth mae angen iddynt ei wneud i wella’u gwaith. Bron ym mhob gwers, nid yw athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain neu roi sylwadau ar waith disgyblion eraill.

Mae’r UCD wedi dechrau olrhain cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, ni chaiff y data hwn ei rannu’n effeithiol ac nid yw athrawon yn defnyddio asesiadau i gynllunio’u gwersi yn effeithiol dros y tymor byr a’r tymor hwy.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol**

Nid yw’r UCD yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth am faterion ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Yn ychwanegol, nid yw’n bodloni’r gofyniad statudol ar gyfer gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd.

Mae polisi ymddygiad priodol a system bwyntiau sy’n gysylltiedig â gwobrau. Fodd bynnag, mae staff yn cymhwyso’r system yn anghyson. Er enghraifft, caiff disgyblion eu derbyn mewn dosbarthiadau nad oes disgwyl iddynt fod ynddynt, ac o bryd i’w gilydd, nid yw ymyriadau staff yn helpu i dawelu sefyllfaoedd. Mewn llawer o achosion, caiff disgyblion eu gwobrwyo er gwaethaf ymddygiad gwael.

Nid oes gan yr UCD bolisi gwrth-fwlio priodol. Fodd bynnag, mae achosion o fwlio yn brin ac fe gânt eu herio’n briodol. Mae cynorthwywyr addysgu yn effeithiol wrth annog disgyblion i rannu eu gofidiau a’u pryderon.

Mae rhai gwersi a phynciau yn hyrwyddo byw yn iach a lles. Fodd bynnag, nid yw addysg bersonol a chymdeithasol wedi'i datblygu'n ddigonol. Nid oes gan yr UCD gynllun ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae'r ddarpariaeth yn gyfyngedig. Gall disgyblion ddewis bwyta prydau ysgol; fodd bynnag, mae hyn wedi'i gyfyngu i baguettes. Mae staff yn mynd â disgyblion i'r dref i gael bwydydd afiach o bryd i'w gilydd. Nid yw'r UCD yn gwneud trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan bob disgybl gynlluniau addysg unigol sy'n cynnwys targedau priodol ar gyfer llythrennedd, rhifedd ac ymddygiad. Fodd bynnag, ni chaiff cynlluniau eu trafod yn ddigon aml gyda disgyblion, rhieni na staff. Nid yw disgyblion yn ymwybodol o'u cynnydd ac nid ydynt wedi'u cymell i wneud cynnydd yn briodol.

Nid yw'r UCD yn bodloni anghenion dysgu ychwanegol pob disgybl yn llawn ac nid yw'n defnyddio gwybodaeth o brofion yn ddigon da wrth gynllunio ymyriadau.

Mae disgyblion yn elwa ar fewnbwn o ystod briodol o asiantaethau allanol fel seicoleg addysgol, cwnsela a chyngor ar yrfaoedd.

Nid yw disgyblion yn cofrestru mewn dosbarthiadau penodedig ac ni chymerir cofrestrau ffurfiol yn ystod yr amser neilltuedig. Mae disgyblion yn ymgynnull yn yr ystafell arlwyo am frecwast. Fodd bynnag, nid yw hwn yn weithgaredd â ffocws ac ni chaiff ei strwythuro na'i gynllunio. O ganlyniad, mae disgyblion yn crwydro i mewn ac allan o'r adeilad. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, mae rhai ohonynt yn defnyddio'r cyfle i baratoi eu sigaréts. Caiff disgyblion eu hannog gan staff i ysmygu cyn dechrau gwersi'r bore ac mae'r ysgol yn darparu lle i ddisgyblion ei ddefnyddio i gysgodi wrth ysmygu.

Nid yw trefniadau'r UCD ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder difrifol. Yn ystod yr arolygiad, codwyd nifer o faterion diogelu gyda'r ysgol. Er enghraifft, mae'r UCD yn caniatáu i ddisgyblion adael y safle amser cinio. Mae hyn yn amhriodol gan fod llawer o ddisgyblion yn cael eu hystyried yn agored i niwed neu mewn perygl. Nid oes gan staff wybodaeth ddigon da ynghylch ble mae'r disgyblion neu beth maent yn ei wneud.

**Yr amgylchedd dysgu: Anfoddhaol**

Mae'r UCD yn anghyson o ran y modd y mae'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac nid oes ganddi bolisïau na gweithdrefnau priodol ar waith. Nid yw staff wedi cael hyfforddiant cydraddoldeb priodol. Prin yw'r cyfleoedd sy'n bodoli i barchu a dathlu amrywiaeth.

Mae'r UCD yn cynnwys ystafelloedd dosbarth o faint da ac amrywiaeth o ystafelloedd ar gyfer addysgu unigolion a grwpiau bach. Yn ychwanegol, mae'n cynnwys llyfrgell daclus. Caiff y llyfrgell ei chynnal a'i chadw'n dda, caiff ofal da, ac mae'n ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr hefyd.

Ychydig iawn o arddangosfeydd o waith disgyblion a geir o amgylch yr ysgol.

Nid yw'r amgylchedd dysgu yn cynnig ystod ddigonol o adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu ar hyn o bryd, er enghraifft mewn gwyddoniaeth a TGCh. Fodd bynnag, mae'r UCD yn gwneud defnydd da o gyfleusterau addysgu oddi ar y safle, yn enwedig ar gyfer disgyblion hŷn sy'n dilyn cyrsiau galwedigaethol cysylltiedig. Ni wneir defnydd digonol o ardaloedd yn yr awyr agored ac nid ydynt wedi'u datblygu'n ddigonol chwaith.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae'r UCD wedi newid yn sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r awdurdod wedi ailstrwythuro'r drefn staffio yn llwyr ac wedi penodi athro newydd â gofal a ddechreuodd weithio yno ym Medi 2013.

Gwnaed ychydig o welliannau i waith yr UCD yn ddiweddar, fel y rhai i ddatblygu cynlluniau gwaith, a'r gwelliannau a wnaed o ran presenoldeb. Mae rolau a chyfrifoldebau yn yr UCD wedi'u diffinio'n glir erbyn hyn, ac mae gan bob aelod o staff ddisgrifiadau swydd priodol. Er gwaethaf hyn, nid yw pob un o'r staff addysgu wedi croesawu'r newidiadau yn llawn ac nid yw llawer ohonynt wedi ymgynefino'n hyderus â'r trefniadau newydd eto.

Mae gan yr awdurdod lleol a'r athro â gofal weledigaeth i'r UCD fod yn ganolfan ragoriaeth i ddisgyblion cyfnod allweddol 3 a 4. Fodd bynnag, nid yw'r weledigaeth hon wedi'i ffurfio'n llawn ac nid yw wedi cael ei chyfleu yn ddigon da i bob aelod o staff. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o staff yn rhannu'r diben cyffredin a'r ysbryd o gydweithio sy'n angenrheidiol i ysgogi gwelliannau yn y ganolfan.

Mae'r UCD wrthi'n gweithio ar gynllun ymyrraeth a luniwyd gan y gwasanaeth addysg ymgynghorol. Mae hyn yn canolbwyntio'n briodol ar gynnydd disgyblion a gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Megis dechrau y mae gwaith i gasglu a dadansoddi data ar draws holl feysydd yr UCD. O ganlyniad, ni all yr UCD a'r awdurdod lleol fod yn sicr am gynnydd a chyrhaeddiad pob un o'r disgyblion.

Mae'r UCD wedi cyflwyno fframwaith rheoli perfformiad yn ddiweddar, ac mae targedau blynyddol priodol sy'n ymwneud â gwella deilliannau disgyblion wedi cael eu gosod ar gyfer pob un o'r staff addysgu.

Yr eithriad i hyn yw'r athro sydd â gofal, y mae ei adolygiad ei hun gyda chadeirydd y pwyllgor rheoli ar y gweill. Mae'r system rheoli perfformiad yn rhy newydd i fesur unrhyw effaith y gallai ei chael ar wella addysgu a dysgu.

Mae aelodaeth o'r pwyllgor rheoli wedi bod yn anghyson ac nid yw'n rhoi cymorth a her dda i'r UCD ar hyn o bryd. Er bod gan aelodau o'r pwyllgor brofiad eang a helaeth priodol, nid ydynt yn dangos ymrwymiad digon da i wella perfformiad y ganolfan. Ychydig iawn o ddadansoddiad o berfformiad yr UCD y mae adroddiadau yn ei roi i'r pwyllgor rheoli.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Gwnaed cynnydd gwael iawn yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn adroddiad arolygu blaenorol Estyn ac nid yw unrhyw un ohonynt wedi cael eu cyflawni'n llawn.

Mae'r prosesau ar gyfer hunanarfarnu ac adolygu yn wael ac yn cynnwys ychydig iawn o ymglymiad gan staff, disgyblion, rhieni a phartneriaid. Nid yw athrawon yn asesu eu perfformiad eu hunain na pherfformiad eu disgyblion yn rheolaidd. Mae'r athro â gofal wedi cydnabod hyn, a lluniodd adroddiad hunanarfarnu defnyddiol ar gyfer yr arolygiad. Mae hyn yn arfarnol i raddau helaeth. Fodd bynnag, ni chaiff ei gefnogi'n ddigon da gan dystiolaeth uniongyrchol ac nid yw'n cynnwys dadansoddiad trylwyr o ddata.

Mae'r diffygion mewn hunanarfarnu yn golygu nad yw'r UCD yn cael asesiad cywir a digon manwl o'i chryfderau a'i gwendidau.

Nid yw hunanarfarnu yn llywio'r daith wella yn yr UCD. Yn hytrach, mae'r UCD yn gweithio yn unol â chynllun ymyrraeth ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r targedau a'r camau gweithredu yn y cynllun yn aml yn rhy eang ac nid ydynt yn cynnwys cerrig milltir. O ganlyniad, ni all yr UCD bob amser ddweud pa mor dda y mae'n gwneud cynnydd o ran y camau gwella amrywiol.

Nid oes system ar gyfer arsylwadau gwersi ffurfiol ar hyn o bryd. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i reolwyr nodi'n glir y modd y gellir gwella addysgu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r UCD yn gweithio'n agos gydag ystod eang o asiantaethau a phartneriaid i fodloni anghenion disgyblion.

Mae pob un o'r rhieni'n gwerthfawrogi'r cyswllt â'r UCD. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r cyswllt wedi'i gynllunio'n strategol ond mae'n golygu rhannu gwybodaeth yn gyffredinol. O ganlyniad, nid yw rhieni mor ymwybodol o gynnydd eu plentyn ag y dylent fod.

Mae'r UCD wedi datblygu cysylltiadau effeithiol gyda phob ysgol uwchradd yn yr awdurdod. Caiff y drefn o dderbyn disgyblion i'r UCD ei rheoli trwy banel sy'n cynnwys yr athro â gofal, uwch staff o ysgolion prif ffrwd a swyddogion yr awdurdod lleol. Mae'r panel hwn yn dechrau sicrhau bod cynllunio a dogfennau priodol ar waith ar gyfer pob disgybl newydd.

Ceir tystiolaeth fod disgyblion yn yr UCD yn dechrau elwa ar bartneriaethau, fel y gwasanaeth lleol ar gyfer cwnsela cyffuriau a phrosiect ymgysylltu Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r ysgol wedi gweithio gyda'r consortiwm addysg rhanbarthol i reoli ymweliadau oddi ar y safle yn effeithiol.

Nid yw'r UCD yn defnyddio partneriaethau yn effeithiol i ysgogi ei gwelliant ei hun. Er enghraifft, nid yw'n cynnwys rhanddeiliaid yn y broses hunanarfarnu. Nid yw'n gweithio'n ddigon agos gydag ysgolion prif ffrwd i rannu cyfleoedd a chyfleusterau hyfforddi, nac i safoni gwaith disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae digon o athrawon a staff cymorth cymwys i addysgu disgyblion. Mae cynorthwywyr addysgu yn benodol yn adnodd gwerthfawr a hyblyg. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm. Mae'r athro â gofal yn eu defnyddio'n dda ac yn eu gweddu'n ofalus i anghenion y disgyblion unigol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio ar gyfer eu defnyddio i gynorthwyo dysgwyr mewn gwersi.

Mae trefniadau boddhaol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus athrawon. Nid yw athrawon yn cymryd rhan mewn arsylwadau gwersi uniongyrchol ond mae rhai ohonynt yn ymweld ag unedau cyfeirio disgyblion eraill i ddysgu o arfer dda. Mae pob un o'r athrawon yn mynychu hyfforddiant ar gynllunio tymor byr. Mae dau athro wedi dod yn aseswyr bwrdd arholi ac yn dod â'r profiad defnyddiol hwn yn ôl i'r UCD i wella safonau. Ceir ymglymiad cyfyngedig mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol ond mae un athro yn rhan o grŵp mathemateg ar gyfer UCDau y consortiwm.

Ni chynhaliwyd dadansoddiad effeithiol o anghenion hyfforddi staff ac nid oes digon o ffocws ar arbenigedd staff yn agweddau emosiynol ac ymddygiadol y disgyblion sy'n mynychu'r ganolfan.

Mae gan yr athro â gofal gynlluniau da i wella adnoddau'r UCD. Gwnaed gwelliannau i'r adeiladau a chafwyd mwy o adnoddau dysgu trwy brynu offer TGCh a dylunio a thechnoleg newydd.

Cymorth boddhaol yn unig a gaiff yr athro â gofal gan yr awdurdod lleol i reoli materion ariannol a staffio cymhleth, fel diffyg yn y gyllideb ar hyn o bryd ac absenoldeb tymor hir staff oherwydd salwch.

Barnwyd bod safonau yn yr UCD yn anfoddhaol ac, o ganlyniad, mae'r UCD yn cynnig gwerth anfoddhaol am arian ar hyn o bryd.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Uwchradd (Cyffredinol)

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 22 | 10<br>45% | 9<br>41% | 1<br>5% | 2<br>9% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 45% | 41% | 5% | 9% | |
| The school deals well with any bullying | 22 | 7<br>32% | 11<br>50% | 3<br>14% | 1<br>5% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 32% | 50% | 14% | 5% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 22 | 7<br>32% | 10<br>45% | 5<br>23% | 0<br>0% | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 32% | 45% | 23% | 0% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 22 | 6<br>27% | 8<br>36% | 2<br>9% | 6<br>27% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 27% | 36% | 9% | 27% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 22 | 8<br>36% | 8<br>36% | 6<br>27% | 0<br>0% | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 36% | 36% | 27% | 0% | |
| I am doing well at school | 22 | 5<br>23% | 10<br>45% | 4<br>18% | 3<br>14% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 23% | 45% | 18% | 14% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 22 | 10<br>45% | 11<br>50% | 1<br>5% | 0<br>0% | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 45% | 50% | 5% | 0% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 22 | 3<br>14% | 4<br>18% | 13<br>59% | 2<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 14% | 18% | 59% | 9% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 22 | 3<br>14% | 14<br>64% | 3<br>14% | 2<br>9% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 14% | 64% | 14% | 9% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 22 | 1<br>5% | 6<br>27% | 11<br>50% | 4<br>18% | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 5% | 27% | 50% | 18% | |

| | | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff treat all pupils fairly and with respect | | 22 | | 4<br>18% | 13<br>59% | 4<br>18% | 1<br>5% | | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | | | 18% | 59% | 18% | 5% | | |
| The school listens to our views and makes changes we suggest | | 22 | | 4<br>18% | 10<br>45% | 6<br>27% | 2<br>9% | | Mae'r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu. |
| | | | | 18% | 45% | 27% | 9% | | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | | 22 | | 5<br>23% | 15<br>68% | 1<br>5% | 1<br>5% | | Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | | | 23% | 68% | 5% | 5% | | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | | 22 | | 6<br>27% | 11<br>50% | 4<br>18% | 1<br>5% | | Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | | | 27% | 50% | 18% | 5% | | |
| The staff respect me and my background | | 22 | | 6<br>27% | 15<br>68% | 0<br>0% | 1<br>5% | | Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir. |
| | | | | 27% | 68% | 0% | 5% | | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | | 22 | | 4<br>18% | 16<br>73% | 1<br>5% | 1<br>5% | | Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | | | 18% | 73% | 5% | 5% | | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | | 18 | | 5<br>28% | 10<br>56% | 2<br>11% | 1<br>6% | | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | | | 28% | 56% | 11% | 6% | | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | | 4 | | 0<br>0% | 3<br>75% | 0<br>0% | 1<br>25% | | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | | | 0% | 75% | 0% | 25% | | |

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 18 | 13<br>72% | 4<br>22% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 68% | 26% | 5% | 0% | | |
| My child likes this school. | 18 | 10<br>56% | 7<br>39% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 53% | 42% | 5% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 18 | 15<br>83% | 3<br>17% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 18 | 11<br>61% | 7<br>39% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 58% | 42% | 0% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 15 | 6<br>40% | 4<br>27% | 4<br>27% | 0<br>0% | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 38% | 25% | 31% | 0% | | |
| Teaching is good. | 18 | 14<br>78% | 4<br>22% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 18 | 14<br>78% | 4<br>22% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 16 | 9<br>56% | 3<br>19% | 3<br>19% | 0<br>0% | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 53% | 18% | 24% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 17 | 12<br>71% | 4<br>24% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 67% | 28% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 14 | 9<br>64% | 4<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 60% | 33% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 17 | 12<br>71% | 4<br>24% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 22% | 6% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 18 | 13<br>72% | 4<br>22% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 68% | 26% | 5% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 18 | 12<br>67% | 6<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 37% | 0% | 0% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 18 | 13<br>72% | 4<br>22% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 68% | 26% | 5% | 0% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 18 | 14<br>78% | 4<br>22% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 16 | 12<br>75% | 4<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 18 | 8<br>44% | 8<br>44% | 1<br>6% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 47% | 5% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 17 | 11<br>65% | 6<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 61% | 39% | 0% | 0% | | |
| The school is well run. | 17 | 11<br>65% | 5<br>29% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 33% | 6% | 0% | | |

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Huw Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Rachael Bubalo | Arolygydd Tîm |
| Alec Clark | Arolygydd Tîm |
| Catherine Mary Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Sean Jenks | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ian Roberts | Enwebai'r Darparwr |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau ADY

**ADDLI**:  anawsterau dysgu dwys a lluosog

**ADHD**:  anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio

**ADP**:  anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

**ADY**:  anghenion dysgu ychwanegol

**ASA**:  Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy'n cynnwys Syndrom Asperger

**AYA**:  adnodd ychwanegol yr athro

**AYECh**:  Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

**CY**:  Cod Ymarfer

**NAS**:  nam amlsynhwyraidd

**NC**:  nam ar y clyw

**NG**:  nam ar y golwg